**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

# Adroddiad Blynyddol 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mwy o wybodaeth**

Mae holl adroddiadau'r Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig i'w gweld ar wefan pwyllgorau'r Cynulliad yn:

**http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am waith y Pwyllgor, neu os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8239
Ffacs: 029 2089 8021

**E-bost: ruraldev.comm@wales.gsi.gov.uk**

## Aelodau'r Pwyllgor



Alun Davies
(Cadeirydd)
Canolbarth a
Gorllewin Cymru
Llafur



Rhodri Glyn Thomas
Dwyrain Caerfyrddin a
Dinefwr
Plaid Cymru



Mick Bates
Sir Drefaldwyn
Y Democratiaid
Rhyddfrydol



Brynle Williams
Gogledd Cymru
Y Ceidwadwyr Cymreig

## Cylch Gorchwyl

Sefydlwyd yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig fel is-bwyllgor o'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 5 Gorffennaf 2007.

Ei gylch gorchwyl yw craffu ar waith Llywodraeth Cymru yn y meysydd hynny y mae ganddi gyfrifoldeb drostynt sy'n effeithio ar ddatblygu gwledig.

## Y Gwaith a Gyflawnwyd

Cyhoeddwyd adroddiad yr Is-Bwyllgor ar ad-drefnu ysgolion yn y Gymru wledig yn niwedd 2008. Ymchwiliad oedd hwn a ddeilliodd o ddeiseb a gafwyd gan grŵp o rieni o Bowys.

Bu'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â darparu addysg mewn ysgolion cynradd gwledig; y materion cymdeithasol ac addysgol sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion cynradd, fel yr effaith ar gymunedau; pa mor addas yw'r polisïau a'r canllawiau presennol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion ehangach sy'n gysylltiedig ag ad-drefnu ysgolion cynradd gwledig; a swyddogaeth Estyn. Cafwyd dadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Ionawr 2009.

Yna cynhaliodd yr Is-Bwyllgor ymchwiliad byr, penodol ynghylch adolygiad Llywodraeth Cymru o Echel 2 y Cynllun Datblygu Gwledig. Casglwyd tystiolaeth yn ystod dau gyfarfod gyda rhanddeiliaid, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror. Bu dadl arno yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Mawrth.

Lansiodd yr Is-Bwyllgor ei ymchwiliad i gynhyrchu a hybu bwyd Cymreig yn Sioe Aeaf Frenhinol Cymru ym mis Rhagfyr 2008. Casglwyd tystiolaeth mewn ffordd newydd yng nghyfarfod cyntaf yr Is-Bwyllgor ym mis Ionawr, drwy gynnal sesiwn drafod o amgylch bwrdd gyda rhanddeiliaid er mwyn clywed eu sylwadau am y problemau sy'n wynebu'r diwydiant.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig gan amrywiaeth eang o sefydliadau, a chlywyd tystiolaeth lafar gan gynhyrchwyr, prosesyddion, adwerthwyr a'r rheini sy'n ymwneud â hyrwyddo a marchnata.

Lansiwyd yr adroddiad mewn digwyddiad yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2009. Yn y Sioe hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ynghylch 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn'.

Ym mis Mawrth, gan ymateb i bryderon a godwyd gan ffermwyr ac undebau'r ffermwyr, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i'r system adnabod electronig ar gyfer defaid. Bu'r Pwyllgor yn ymweld â Dunbia a Fferm Llandre i weld offer adnabod electronig yn cael ei ddefnyddio, cyn clywed barn rhanddeiliaid mewn cyfarfod ffurfiol yn Llanbedr Pont Steffan. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2009.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd sesiwn graffu gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Is-Bwyllgor ar dwbercwlosis mewn gwartheg yn 2008.

Ar ôl toriad yr haf, bu'r Is-Bwyllgor yn cynnal ymchwiliad byr i ddyfodol y diwydiant llaeth yng Nghymru. Cafwyd tystiolaeth gan undebau'r ffermwyr a chynrychiolwyr y diwydiant llaeth yng Nghymru. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn Ffair Aeaf Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar 30 Tachwedd 2009.

Mae'r Is-Bwyllgor ar hyn o bryd yn y broses o glywed tystiolaeth lafar fel rhan o'i ymchwiliad i ddyfodol ucheldiroedd yng Nghymru, sy'n rhan heriol a phwysig o'r amgylchedd am nifer o resymau, gan gynnwys materion yn ymwneud â ffermio, coedwigaeth, hamdden, cadwraeth bywyd gwyllt a rheoli dŵr. Bydd yr Is-Bwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad yn gynnar yn 2010.

At hynny, gwahoddir rhanddeiliaid perthnasol i gyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig mewn lladd-dai yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad yn agored tan fis Ionawr 2010, ac mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed gan gynifer o bartïon perthnasol â phosibl.



